| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Ionawr 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad diweddaru ynghylch Teledu Cylch Cyfyng Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Diweddaru'r Aelodau ar oblygiadau penderfyniad y Cyngor, fel rhan o'r ymarfer rhyddid a hyblygrwydd i ddileu cyllid o'r swyddogaeth TCC ar gyfer 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Penderfynodd yr Aelodau na ddylai'r Cyngor fod yn ariannu neu'n rheoli'r gwasanaeth TCC o 1 Ebrill 2016. Bydd hyn yn darparu £200k o arbedion ar gyfer 2016/17. Gofynnodd Aelodau i swyddogion weithio gyda phartneriaid i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu model darparu gwasanaeth TCC gwahanol i ddod i rym o'r 1 Ebrill 2016. Gofynnodd Aelodau am dderbyn adroddiad diweddaru ym mis Ionawr 2016.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir y dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad hwn a chefnogi'r gwaith a wneir gan swyddogion wrth ddarparu ac adnabod arbedion a datblygu model partneriaeth newydd ar gyfer darpariaeth TCC i ddechrau ar 1 Ebrill 2016.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae system TCC y Cyngor yn cael ei weithredu a'i reoli gan Wasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae wedi'i leoli yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl.

4.2 Prif ddiben y system yw cefnogi'r ffordd y mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn lleihau'r lefel o drosedd yn ogystal â lleihau'r gofid o drosedd, a sicrhau amgylchedd cyhoeddus diogel ar gyfer unigolion sy'n byw, yn ymweld, ac sy'n gweithio yn yr ardal.

4.3 Mae'r gwasanaeth hefyd yn monitro nifer fach o gamerâu TCC sydd wedi'u lleoli ar dir cyngor a thir preifat at ddibenion diogelwch.

4.4 Lleolir y Camerâu TCC Mannau Cyhoeddus yn Y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan. Mae’r camerâu wedi eu lleoli fel a ganlyn:

- Y Rhyl 59 Camera
- Prestatyn 17 Camera
- Rhuddlan 4 Camera

Mae'r holl gamerâu hyn yn gamerâu byw, wedi eu cysylltu â’n prif ystafell reoli TCC yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl lle arferid monitro 24 awr y dydd.

4.5 Yn dilyn y penderfyniad i ddileu cyllid y Gwasanaeth TCC, mae swyddogion wedi ymgysylltu â phartneriaid i ffurfio gweithgor i ymchwilio i opsiynau o ddarparu gwasanaeth TCC amgen yn y dyfodol.

4.6 Mae aelodaeth y gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Tref y Rhyl, Cyngor Tref Prestatyn, Cyngor Tref Rhuddlan, Grŵp Ardal Aelodau’r Rhyl, Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn a Grŵp Ardal Aelodau Elwy. Mae’r grŵp wedi cytuno ar ei gylch gorchwyl ac wedi cyfarfod sawl gwaith.

4.7 Cytunwyd ar fodel cyflenwi terfynol gyda’r holl bartneriaid sy’n cynnwys cadw’r camerâu TCC cyfredol yn weithredol o fewn Y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan. Byddai’r camerâu hyn yn parhau i recordio 24 awr y dydd, fodd bynnag ni fyddai monitro parhaol o’r camerâu. Mae angen un aelod o staff (Cydlynydd TCC) i gynnal y system a bod yn bwynt cyswllt ac yn gydlynydd rhwng yr holl bartneriaid.

4.8 Mae gwaith pellach wedi ei wneud gyda’r partneriaid i sefydlu pa ‘incwm’ y gellir ei gynhyrchu gan y bartneriaeth er mwyn gallu darparu gwasanaeth TCC.

4.9 Cytunwyd ar y cyfraniadau a’r incwm canlynol

- Heddlu Gogledd Cymru – Byddant yn parhau i gyfrannu’r un swm at y gwasanaeth TCC ag y maent wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol (oddeutu 16k)
- Cyngor Tref y Rhyl – Cytuno mewn egwyddor i gyfrannu'n ariannol at fodel newydd (15K)
- Cyngor Tref Prestatyn – Cytuno mewn egwyddor i gyfrannu'n ariannol at fodel newydd (10k)
- Cyngor Tref Rhuddlan – Cytuno mewn egwyddor i gyfrannu'n ariannol at fodel newydd (3.5k)

- Ad-daliadau mewnol (Cyngor Sir Ddinbych) i wasanaethau sy'n elwa o ddiogelwch o ganlyniad i'r ffaith fod y camerâu TCC yn gysylltiedig â'r ystafell reoli (tua £14.5k)
- Taliadau allanol ar gyfer camerâu preifat sy'n gysylltiedig â'r ystafell reoli (tua £2k).

4.10 Mae hyn yn rhoi incwm tebygol o tua £61k.

4.11 Mae'r math o wasanaeth a ellir ei gyflenwi am tua £61k yn cynnwys y canlynol:

| Gweithgarwch | Disgrifiad Byr | Costau a ragwelir ar gyfer gwasanaeth minimol |
|---|---|---|
| Cydlynydd Camerâu Cylch Cyfyng | Wedi'i leoli yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl i reoli'r gwasanaeth minimol | £28k |
| Cwadrant | Atgyweirio a chynnal a chadw'r ystafell reoli | £6k |
| Camera stryd | Atgyweirio a chynnal a chadw camerâu | £15k |
| BT Redcare | Ansawdd y lluniau | £5k |
| Costau'r ystafell reoli | Trydan, awyru | £8k |
| Cyfanswm Cost wedi'i Amcangyfrif | | £62k |

4.12 Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl arbedion ariannol o gau'r gwasanaeth TCC yn cael eu sicrhau erbyn 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn cynnwys yr holl gostau dileu swyddi. Golyga hyn bod y saith gweithredwr TCC wedi eu gwneud yn ddi-waith ar 31 Hydref 2015. Cadwyd Cydlynydd TCC er mwyn cynnal gwasanaeth tan y 1 Ebrill 2016 pan fydd y bartneriaeth newydd yn cychwyn.

4.13 Mae cytundeb cyfreithiol a threfniadau llywodraethol yn cael eu drafftio gan wasanaethau cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych ar y cyd â chyfreithwyr Heddlu Gogledd Cymru. Mae'n bosib yr hoffai Aelodau holi am adroddiad yn ystod hydref 2016 er mwyn craffu ar drefniadau llywodraethol y bartneriaeth TCC newydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gweithredu gwasanaeth TCC yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol o amddiffyn pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau a chadw ein strydoedd yn lân ac yn daclus.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd costau'r bartneriaeth TCC newydd fydd yn effeithlon o'r 1 Ebrill yn cael eu cwrdd gan y partneriaid a gan 'incwm'.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb? Wedi gwneud (AoEaG) ar y penderfyniad? Dylai'r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae effaith bosibl y penderfyniad hwn wedi cael ei asesu. Os penderfynir symud ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion a soniwyd amdanynt yn gynharach, yna rhaid eu hasesu am effaith cydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Aelodau drwy'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd a diweddarwyd Aelodau fel mae trafodaethau wedi datblygu gyda phartneriaid. Mae staff TCC ac Undebau wedi eu hymgysylltu â hwy ar amrywiol gamau fel bo'r angen.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd y cynigion yn yr adroddiad hwn yn galluogi gweithredu penderfyniad y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2014 i dynnu £200k o'r maes gwasanaeth hwn yn 2016/17. Roedd hyn yn rhan o arbedion Cam 2 Rhyddid a Hyblygrwydd.

**10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad ffurfiol.

11.2 Erthygl 6.3.2(c) o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n amodi y gall y pwyllgor Archwilio "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio'r ardal neu ei drigolion", ac Erthygl 6.3.3(a) yn nodi fod y pwyllgor Archwilio yn gallu "cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi..."

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Ffôn: 01824 706350